



RhCT Ddigidol

Ein Gweledigaeth Ddigidol 2020



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

RhCT Ddigidol – Ein Gweledigaeth Ddigidol 2020

Cynnwys

1. Cyfeiriad Newydd
2. Ein Huchelgais Digidol
3. Cynnwys Digidol
4. Ble rydyn ni eisiau bod – Llinynnau Strategol
 - a. Preswlydd Digidol
 - b. Medrau Digidol
 - c. Busnes Digidol
 - d. Ymwelwyr Digidol
 - e. Gweithle Digidol
5. Ein 10 Deilliant Strategol
6. Sut byddwn ni'n cyrraedd?
7. Dangosydd Perfformiad Allweddol

Cyfeiriad Newydd

Rydyn ni eisoes yn byw mewn oes ddigidol ac mae'r ffordd rydyn ni'n cyfathrebu, byw ac yn gweithio wedi newid yn llwyr. Mae'n hanfodol ein bod ni'n ymgyswrtu â thueddiadau sy'n newid a'r cyfleoedd enfawr mae'r oes yma yn eu cyflwyno i ni. Rydyn ni eisiau trawsffurfio'r hyn rydyn ni'n ei wneud, sut rydyn ni'n ei wneud a sicrhau ein bod ni'n darparu amgylchedd i'n cymunedau ffynnu mewn byd digidol sydd wastad yn ehangu. Wrth i'n Cyngor barhau i wynebu cyfnod caled, mae'r angen am newid yn bwysicaf nag erioed. Yn ogystal â hyn, dydy'r angen am drawsffurfiad digidol ddim wedi bod yn fwy perthnasol na chyffrous.

Er nad ydyn ni'n dechrau o'r dechrau, mae gyda ni gyfle mawr am drawsffurfiad ehangach gan ddefnyddio technoleg ddigidol i ailgynllunio'r hyn rydyn ni'n ei wneud, caniatáu i'n preswylwyr gael mwy o reolaeth dros sut a phryd maen nhw'n manteisio ar eu gwasanaethau, a chreu diwylliant o arloesedd digidol ac uchelgais economaidd.

Rydyn ni'n byw mewn oes ddigidol. Dyma oes sy'n cyflwyno nifer o gyfleoedd i ni wella'r hyn rydyn ni'n ei wneud a sut rydyn ni'n ei wneud. Rydyn ni eisiau manteisio ar y cyfleoedd yma ymhellach trwy ddarparu platfform ar gyfer arloesedd a thwf ein heconomi digidol ledled RhCT.

Ein Strategaeth

Mae ein strategaeth yn gosod ble rydyn ni ar hyn o bryd a'n huchelgeisiau. Trwy gydweithio a chlymu llinynnau craidd at ei gilydd, byddwn ni'n gwella sut rydyn ni'n gweithio, rhyngweithio, dysgu a byw gan sicrhau nad ydy ein preswylwyr ar ei hôl hi trwy ddarpariaeth cynhwysiant digidol a mynediad arall lle bo angen. Byddwn ni'n ymateb i newidiadau mewn polisiau ac amcanion sefydliadol wrth gefnogi Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2016-2020 – "Y Ffordd Ymlaen", lle mae dull digidol yn alluogydd allweddol i'w dri phrif flaenoriaeth:

- [ECONOMI – Adeiladu economi gref](#)
- [POBL – Hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb](#)
- [LLE – Creu cymdogaethau mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw](#)

Mae'r strategaeth yn cyd-fynd ag amcanion strategaeth "Cyflawni Cymru Ddigidol" Llywodraeth Cymru sy'n bwriadu sicrhau bod pob preswlydd, yn enwedig y rheiny dan anfantais, yn sylweddoli buddion technoleg ddigidol.

Ailddiffinio ein Perthynas â Chwsmeriaid

Mae technoleg ddigidol yn caniatáu i ni ailddiffinio ein perthynas â'n cwsmeriaid. Byddwn ni'n rhoi cwsmeriaid wrth galon ein trawsffurfiad digidol a gwneud gwelliannau trwy ddefnyddio technoleg glyfar, a datblygu arferion gweithio arloesol. Trwy weithio gyda chymuned eang o randdeiliaid, byddwn ni'n creu'r gwasanaethau lleol gorau posibl ar gyfer ein cwsmeriaid.

Newid ein Diwylliant

Wrth i ni gyflawni'r strategaeth yma, mae angen newid ein diwylliant. Bydd angen ffydd a chyfathrebu i ddatblygu gweithle sy'n fwy hyblyg. Wrth i bolisiau ddatblygu a newidiadau i

systemau newydd ddod yn heriol weithiau, bydd yn cynnig cydbwysedd gwaith/bywyd gwell ar gyfer ein gweithwyr.

Ein Huchelgais Digidol

Bydd ein huchelgeisiau trawsffurfio digidol yn cyflawni gwelliannau ar draws y Cyngor, ond mae ein huchelgais yn fwy eang o lawer. Hoffwn i gyflawni cynnydd go iawn ar gyfer ein preswylwyr, dysgwyr, ymwelwyr a busnesau. Ein gweledigaeth yw gwneud Cyngor Rhondda Cynon Taf yn arweinydd ac yn sefydliad sy'n defnyddio'r ochr ddigidol i helpu i drawsffurfio ein cymunedau. Rydyn ni o'r farn bod modd i ni fanteisio ar gyfleoedd digidol i wella ansawdd bywydau pobl ein Bwrdeistref trwy'r camau gweithredu wedi'u nodi yn y strategaeth yma.

Ein Heconomi Digidol

Gyda blwch sgiliau presennol y DU sy'n costio'r economi tua £63 biliwn y flwyddyn trwy incwm wedi'i golli¹ byddwn ni'n gwella sgiliau digidol yn ein system addysg i roi'r siawns orau i ni gyfalafu ar y cyfleoedd enfawr posibl o ran ehangu'r sector digidol. Byddwn ni'n creu amgylchedd i adfywio ein heconomi trwy leoliadau cydweithio a seilwaith digidol o'r radd flaenaf. Yn sail i hyn fydd platfform ar gyfer arloesedd, entrepreneuriaeth, busnesau newydd eu sefydlu a denu cwmnïau i RCT.

Cydweithio

Rydyn ni eisiau ennyn hyder yn ein gwasanaethau digidol ar gyfer ein cwsmeriaid, a hynny'n fewnol ac yn allanol. Byddwn ni'n defnyddio a rhannu arferion da wrth gydweithio â'n partneriaid mewnol i wella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid. Bydd gwasanaethau yn dod yn fwyfwy cydgysylltiedig trwy ddefnyddio adnoddau digidol er mwyn i ni wneud pethau'n well. Mae'r strategaeth yma yn amlinellu sut rydyn ni'n cyflawni hyn yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Bydd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn dylanwadu'n gadarnhaol ar y strategaeth yma. Byddwn ni'n bwriadu cyfalafu ar ddatblygiadau a chyfleoedd wrth iddyn nhw godi.

Mae'r ochr **ddigidol** yn ein strategaeth yn ffordd o *wneud* pethau ac yn cynnwys technoleg, creu gwerth trwy wella'r hyn rydyn ni'n ei wneud a sut rydyn ni'n ei wneud.

Mae **cwsmeriaid** yn bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu neu weithio gyda nhw fel Cyngor, gan gynnwys ein preswylwyr,

1. Science and Technology Committee, Digital Skills Crisis, <https://goo.gl/LNX58q> Mehefin 2016.

Cyd-destun Digidol

41,500 (22.5%)²

o oedolion RhCT yn dweud nad ydyn nhw'n defnyddio'r we yn rheolaidd ac maen nhw i'w gweld allan ohoni o ran yr ochr ddigidol.

65%³

o bobl yn y DU yn cysylltu â'r we trwy ddefnyddio ffôn clyfar

Mae angen sgiliau digidol i ryw raddau ar gyfer **90%⁴** o swyddi

Bydd angen **745,000⁵** o weithwyr ychwanegol sydd â sgiliau digidol erbyn 2017 ledled y DU

£50,000⁶

yw'r cyflog wedi'i hysbysebu ar gyfartaledd yn y DU ar gyfer swyddi digidol (36% yn uwch na chyfartaledd y DU)

£161 biliwn⁶

yw amcangyfrif trosiant diwydiannau technoleg ddigidol yn 2014

£744⁷

yw'r swm mae modd ei arbed wrth i berson ddefnyddio gwasanaethau ar-lein

32%⁸

Twf Diwydiannau Technoleg y DU o'i gymharu â gweddill economi'r DU (mewn trosiant)

2. Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014/15, Llywodraeth Cymru, <https://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&lang=cy>, 2015

3. Adults' Media Use and Attitudes report, OFCOM, <https://goo.gl/YyPX9j>, Ebrill 2016

4. Science and Technology Committee, Digital Skills Crisis, <https://goo.gl/LNX58q>, Mehefin 2016

5. UK facing 'digital skills crisis' warn MPs, Gwefan BBC News, <http://www.bbc.co.uk/news/business-36510266>, Mehefin 2016


6. Tech Nation 2016: Transforming UK Industries, <http://www.techcityuk.com/blog/2016/02/tech-nation-2016/>, TechCity UK, Chwefror 2016

7. Adults in UK missing out, Banc Lloyds, <https://goo.gl/aa1WqJ>, Ionawr 2016

8. Tech Nation 2016: Transforming UK Industries, <http://www.techcityuk.com/blog/2016/02/tech-nation-2016/>, TechCity UK, Chwefror 2016

Llinynnau Strategol

Mae ein strategaeth wedi cael ei ddatblygu yn dilyn adolygiad trylwyr o arferion gorau ac enghreifftiau sy'n arwain y sector. Mae ein strategaeth yn cynnwys 5 llinyn craidd gyda 3 elfen hanfodol sy'n sail iddyn nhw. Trwy gyfuno'r rhain mae modd gwneud newid go iawn ledled RhCT.



Seilwaith o'r Radd Flaenaf

Rheoli Data a Gwybodaeth

Dylunio Gwasanaeth Digidol



Preswylwyr Digidol

Trawsfurfio a datblygu gwasanaethau ar gyfer ein preswylwyr yn unol â thueddiadau a galw esblygol.

Rhaid i'r Cyngor fanteisio ar dechnoleg i gyflymu'r symudiad at wasanaethau digidol i fodloni disgwyliadau cwsmeriaid, a chefnogi cynnal gwasanaethau effeithiol. Byddwn ni'n datblygu ein gwasanaethau ar-lein i gyfateb i'r hyn sydd i'w weld yn y sector preifat; gwasanaethau integredig, hawdd i'r defnyddiwr eu defnyddio a'u cyrchu ar unrhyw ddyfais, ar unrhyw adeg.

Bydd y Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau digidol – gan gynnwys y wefan, y cyfryngau cymdeithasol a thestun er mwyn ymgysylltu, ymgynghori a rhyngweithio â'n preswylwyr. Bydd y cwsmer wrth galon ein gwasanaethau ar-lein sydd wedi'u hyrwyddo mewn modd gweithredol i fodloni disgwyliadau cwsmeriaid ac ymddygiad heriol, wrth ddarparu cymorth o hyd, lle bo'n addas.

Yr hyn rydyn ni'n ei wneud:

- Gwella gwefan y Cyngor gan ei gwneud hi'n haws i ddefnyddwyr ei defnyddio ac yn addas i'w defnyddio ar ffôn/llechen a gweithredu technoleg 'Apiau' lle bo'n addas.
- Sicrhau bod yr holl wasanaethau ar-lein yn ddi-dor rhwng y cwsmer a'n carfanau rheng flaen.
- Monitro symudiad trwy gofnod cwsmer sengl ar gyfer y rhan fwyaf o gysylltiadau.
- Rhoi cymorth, lle bo'n addas, yn seiliedig ar gymhlethdod gwasanaethau neu angen unigol.
- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu ac ymgynghori â phreswylwyr, a rhoi adborth iddyn nhw.

Yr hyn byddwn ni'n ei wneud:

Gweithredu gwasanaethau ar-lein sy'n hawdd eu defnyddio ac sy'n effeithiol.

- Datblygu ein gwefan yn barhaus fel prif ffynhonnell gwybodaeth a thrafodion ein preswylwyr.
- Sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gryno gan ganiatáu i gwsmeriaid rhyngweithio â'r Cyngor.
- Sicrhau bod ein gwasanaethau ar-lein yn syml i'w defnyddio ac yn syml i'r Cyngor eu cynnal mewn modd diogel, di-dor ac effeithiol o ran cost.
- Galluogi preswylwyr i wasanaethu eu hunain yn fwy eang, er enghraifft llwytho tystiolaeth trwy ddyfais glyfar i ategu ceisiadau a'u cyflymu.
- Darparu mynediad ar ddull ap er mwyn i'n cwsmeriaid gadw lle, ble bynnag maen nhw e.e. dosbarth hamdden.

- Bydd gan breswylwyr fynediad i wasanaethau digidol lleol yng nghanolfannau cymuned sy'n cynnig gwasanaeth diwifr am ddim a mynediad i breswylwyr gysylltu eu dyfais mewn lleoliad aml-sianel.
- Gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod gwasanaeth diwifr ar gael dros ein rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus i sicrhau bod modd i'n preswylwyr ryngweithio ble bynnag maen nhw.
- Datblygu cyfrif personol gydag opsiwn mewngofnodi sengl. Bydd hyn yn cynnwys fy swyddi/fy hamdden/fy nhaliadau/fy nhrefniadau cadw lle/fy mudd-daliadau/fy ngheisiadau ac ati.
- Gweithredu dull olrhain ac adborth ar-lein i wella profiad y cwsmer.
- Bydd creu dull systematig tuag at gasglu data cysylltiadau yn sail i lywio meysydd i'w gwella a'u hyrwyddo, a chofnodi cynnydd.
- Defnyddio technoleg er mwyn cynorthwyo cwsmeriaid â'r broses o ddefnyddio'r we a defnyddio dyfeisiau corfforol er budd preswylwyr e.e. trwy ddefnyddio larymau cartref/personol er mwyn cefnogi annibyniaeth yn y cartref.
- Byddwn ni'n ymateb i dueddiadau cwsmeriaid a digidol a gweithredu datrysiadau newydd pan fo'n addas yn ariannol e.e. taliadau digyswllt.
- Lleihau post. Dyma'r dull mwyaf drud a lleiaf cyfleus ar gyfer y rhan fwyaf o breswylwyr.

Darparu cymorth cyngorwr lle bo'n addas mewn lleoliadau cymunedol.

- Bydd cyngor iBobUn yn symud i lety ar y cyd â gwasanaethau llyfrgell i ddod â gwasanaethau cymunedol allweddol at ei gilydd er budd ein preswylwyr.
- Bydd apwyntiadau yn cael eu cynnig am wasanaethau lle mae angen cyflwyno tystiolaeth.
- Bydd partneriaid allanol yn cael eu cyd-leoli er budd cwsmeriaid, lle bo'n addas.
- Bydd llinellau cymorth canolfannau cyswllt yn cael eu darparu yn y gymuned am ddim.
- Bydd adnoddau yn cael eu darparu i'r rheiny sydd eu hangen fwyaf gan ddibynnu ar y math o ymholiad.
- Bydd cymorth yn cael ei ddarparu gan staff wedi'u hyfforddi mewn Canolfannau Cymuned i gwsmeriaid mae angen cymorth arnyn nhw i fanteisio ar wasanaethau'r Cyngor a gwasanaethau digidol ehangach, yn ogystal â'n llyfrgelloedd a sefydliadau partner.

Cyfathrebu mewn modd ystyrlon sy'n ymgysylltu â'n preswylwyr ac yn rhoi gwybod iddyn nhw.

- Byddwn ni'n ymgysylltu â'n cwsmeriaid ar-lein ac oddi ar y we i gael gwybod am anghenion sy'n newid a dewisiadau.
- Bydd y cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio i ymgysylltu, rhannu gwybodaeth a hyrwyddo gwasanaethau ar-lein.

Dod â'r weledigaeth yn fyw

Mae Lesley yn galw heibio i sesiynau Dydd Gwener Digidol yn ei llyfrgell leol os oes cwestiwn gyda hi am ddefnyddio'r we. A hithau'n aelod o'r llyfrgell, mae hi'n cael rhestr o lyfrau wedi'u hawgrymu sy'n seiliedig ar ei dewisiadau blaenorol fel bod modd iddi lawrlwytho llyfrau i'w darllen wrth deithio o gwmpas Cymru gyda'i thocyn bws.

Mae Lesley yn breswlydd bywiog sy'n mwynhau defnyddio'r we i gefnogi'i ffordd o fyw gartref ac yn gymdeithasol. Mae Lesley wedi cofrestru ar gyfer cyfrif Cyngor ar-lein sy'n dod â'r holl wasanaethau sy'n berthnasol iddi at ei gilydd. Mae hi'n cael negeseuon atgoffa am ei chasgliadau sbwriel, trafndiaeth wirfoddol i fynd â hi i apwyntiadau meddygol ac mae ei dosbarth ioga wedi'i drefnu ar gyfer noson benodol, lle bydd gyda hi opsiwn i aildrefnu'r dosbarth. Mae ei chyfrif yn adnewyddu'i gostyngiad Treth y Cyngor yn awtomatig gan ei bod hi'n byw ar ei phen ei hun, gan leihau'r baich sydd ar y Cyngor, ac ar Lesley, o ran gwaith gweinyddu a gwaith papur.

Mae Lesley hefyd yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gael y newyddion diweddaraf am newyddion a gwasanaethau'r Cyngor. O ganlyniad i hyn, caiff hi drefnu ei chais am



Sgiliau Digidol

Addysgu a chefnogi ein cenhedlaeth i ffynnu mewn oes ddigidol.

Mae sgiliau digidol yn hanfodol i lwyddiant ein sir - a hynny yn y Cyngor, ein cymunedau a'n heconomi. Mae gyda ni uchelgeisiau i greu sir gwbl ddigidol sy'n croesawu'r cyfle enfawr mae technoleg yn ei gynnig. Rydyn ni'n gweld sgiliau digidol fel conglaen ein hymdrechion adfywio ehangach. Mae modd ail-fyw ein treftadaeth gyfoethog o arwain y Chwyldro Diwydiannol yn ein hoes ddigidol. Os ydyn ni'n gwneud hyn yn iawn, byddwn ni'n darparu platfform ardderchog i alluogi ein dysgwyr i ddod yn arloeswyr digidol y dyfodol.

Mae hyn yn golygu cynnig darpariaeth ddigidol o'r radd flaenaf i'n dysgwyr i gefnogi eu haddysg. Byddwn ni'n magu perthnasau gyda diwydiannau a'n partneriaid addysg bellach i godi ymwybyddiaeth o'r cyfle enfawr mewn sector digidol sy'n cyflym ehangu. Mae hyn yn golygu sicrhau bod ein dysgwyr yn cael y sgiliau i groesawu technoleg.

Byddwn ni hefyd yn parhau i gefnogi cynhwysiant digidol preswylwyr yn ein cymunedau, gan sicrhau bod modd i bawb gymryd rhan yn y gymdeithas sy'n fwyfwy digidol ac elwa arni.

Yr hyn rydyn ni'n ei wneud:

- Cefnogi datblygiad sesiynau Dydd Gwener Digidol (sesiynau digidol agored i'r cyhoedd) mewn llyfrgelloedd a lleoliadau eraill yn y gymuned ledled y sir.
- Datblygu Hyrwyddwyr Digidol yn y Cyngor i gefnogi gweithwyr mae angen anogaeth a chymorth arnyn nhw o ran y trawsffurfiad digidol.
- Gweithio gydag ysgolion i wneud yn siŵr bod eu platfform digidol yn sicrhau bod technoleg yn adnodd ar gyfer addysg, nid rhwystr.
- Cynnal rhaglen fuddsoddi gyfalaf strategol Ysgolion yr 21ain Ganrif gyda'r nod o greu cenhedlaeth o ysgolion modern yng Nghymru. Bydd gan dechnoleg ddigidol ran allweddol i'w chwarae yn y rhaglen, gan sicrhau bod modd i'n disgyblion ddefnyddio'r sgiliau i'w helpu nhw i lwyddo.
- Gweithio gydag arweinwyr yn y diwydiant gan gynnwys Microsoft i baratoi ein dysgwyr ar gyfer y dyfodol yn y gweithle.

Yr hyn byddwn ni'n ei wneud:

- Sicrhau bod gan ein hysgolion a lleoliadau yn y gymuned seilwaith digidol o'r radd flaenaf gan roi rhyddid a hyblygrwydd i athrawon gynnal gwersi sy'n defnyddio technoleg trwy'r cwricwlwm.
- Cydweithio â'n partneriaid addysg bellach ac addysg uwch i hyrwyddo llwybrau digidol gan sicrhau ein bod ni'n cyfalafu ar y cyfle o fewn sector digidol ein heconomi.
- Annog perthnasau agos rhwng busnesau a'r byd academiaidd i sicrhau bod ein pobl ifainc yn gadael byd addysg gyda'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth.
- Parhau i gynnal rhaglen ysgolion yr 21^{ain} ganrif.
- Datblygu Ffatrioedd Digidol yn ein hysgolion i sicrhau bod modd i gwmnïau ac entrepreneuriaid digidol weithio mewn modd arloesol gyda'i gilydd a datblygu eu busnesau gyda chymorth mentoriaid ac arweinwyr digidol. Bwriad y manau cydweithio yma yw cysylltu addysg â diwydiant i ysbrydoli entrepreneuriaeth a llwybrau gyrfa digidol.
- Datblygu manau cydweithio 'makerspace' yn ein llyfrgelloedd, Ffatrioedd Digidol neu mewn lleoliadau addas yn y gymuned.
- Croesawu cwmnïau technoleg mawr i'r sir gan gynnwys perthynas barhaus gyda chwmni Microsoft a rhaglenni fel Clwb Cod i ysbrydoli ein dysgwyr.
- Rhoi cymorth i'n preswylwyr ddatblygu a defnyddio sgiliau digidol. Rydyn ni'n cefnogi pobl sydd eisiau mynd ar-lein trwy gysylltiad diwifr â mynediad cyhoeddus, hyrwyddwyr digidol yn ein gweithle, cymunedau, ysgolion a busnesau.
- Dylanwadu ar ddarparwyr technoleg ac Ofcom i sicrhau bod modd i'n sir fanteisio ar gynydd technoleg bob amser gan wneud yn siŵr bod gan ein cymunedau yr un posibiliadau digidol ag unrhyw ardal arall.

Dod â'r weledigaeth yn fyw

Mae Kyle yn dwlu ar dechnoleg ddigidol ac mae ganddo freuddwyd o weithio i gwmni technoleg neu ddechrau ei fusnes ei hun. Mae'i ysgol yn ei annog i ddatblygu ei sgiliau ac mae'n galluogi ei ddatblygiad trwy adnoddau digidol o'r radd flaenaf, mynediad i'r we a Ffatri Ddigidol ar y safle. Mae'r Ffatri Ddigidol yn annog cwmnïau i ymuno â dysgwyr mewn man cydweithio sydd â'r bwriad o ysbrydoli pobl fel Kyle.

Trwy ei benderfyniad ei hun gyda chymorth ei gyfoedion, mae Kyle yn dechrau archwilio i'w syniadau gyda mentoriaid technoleg sy'n dod i'r Ffatri i'w annog a'i gefnogi i ddatblygu ei syniadau.

Yn rhan o'i gymhwyster Bagloriaeth Cymru, mae Kyle yn helpu pobl eraill yn ei lyfrgell leol i fynd ar y we, gan ddefnyddio ei sgiliau digidol naturiol. Mae hefyd yn mynd yn ôl i'w ysgol gynradd i annog dysgwyr a rhieni i ddefnyddio'r we yn ddiogel ac mae'n helpu i gynnal Clwb Cod.



Ymwelwyr Digidol

Darparu gwasanaeth addysgiadol, deniadol a defnyddiol i'n hymwelwyr.

Mae ein hanes cyfoethog a harddwch naturiol yn gwneud RhCT yn lle delfrydol i ymweld â fe. Bydd darparu profiad digidol o'r radd flaenaf i ymwelwyr posibl a'n phreswylwyr yn ei gwneud hi'n haws i bobl fwynhau'r hyn sydd gan ein sir i'w gynnig wrth hyrwyddo ei hymwelwyr trwy ddulliau digidol amrywiol.

Byddwn ni'n darparu gwybodaeth ar y pethau i'w gwneud, ble i aros a'r hyn sy'n digwydd yn RhCT trwy ein gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol mwyaf perthnasol. Byddwn ni hefyd yn sicrhau bod gan ein hymwelwyr gysylltedd da o gwmpas ein lleoliadau i dwristiaid a byddwn ni'n mynd ati i weithio gyda'n partneriaid i wella ansawdd data ffonau symudol.

Yr hyn rydyn ni'n ei wneud:

- Ail-ddylunio gwefan "Croeso RhCT" y Cyngor i'w gwneud hi'n fwy addas i ddefnyddwyr yn ogystal â gweithio ar ffonau symudol a llechi.
- Cyflwyno system cadw lle ar-lein ar gyfer pob un o'n lleoliadau i dwristiaid er enghraifft Lido Cenedlaethol Cymru.
- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gweithgarwch ac achlysuron atyniadau twristiaid.

Yr hyn byddwn ni'n ei wneud:

- Darparu gwasanaeth diwifr ym mhob un o'n lleoliadau i dwristiaid i alluogi ymwelwyr i sicrhau bod modd i bawb rannu eu profiad trwy ddulliau digidol a rhyngweithio â'r lleoliad.
- Galluogi system cadw lle ar-lein ar gyfer pob atyniad, gan ei gwneud hi'n haws i'n hymwelwyr a phreswylwyr gadw lle ar weithgaredd.
- Bydd gwybodaeth ar gael trwy arddangosfeydd digidol mewn atyniadau lleol allweddol.
- Gweithio gyda'n cydweithwyr i ddylanwadu ar ddarparwyr ffonau symudol i wella cysylltedd gan ganiatáu i'n hymwelwyr osgoi rhwystredigaeth o ran cysylltedd.
- Datblygu llwybrau cerdded rhyngweithiol gyda phartneriaid i fanteisio ar harddwch naturiol Rhondda Cynon Taf.
- Parhau i ddatblygu defnydd apiau ar gyfer ein hatyniadau i dwristiaid.
- Ystyried realiti estynedig a'i roi ar brawf mewn safleoedd addas. Gallai hyn fod yn rhan o brosiect arloesedd digidol i ysgolion gan ddefnyddio sgiliau ein dysgwyr i ddarparu atyniadau cyffrous newydd i ymwelwyr a phreswylwyr.

Dod â'r weledigaeth yn fyw

Mae'r teulu Griffiths yn teithio i RCT i ymweld â'u teulu bob haf. Maen nhw'n hoffi cynllunio eu diwrnodau bob blwyddyn i wneud yn fawr o'u hymweliad. Wedi cael gwybod bod ap ar gael sy'n rhestru gweithgareddau a llwybrau cerdded ledled RhCT, mae'r teulu yn lawrlwytho'r ap a chadw lle ar daith o Barc Treftadaeth Cwm Rhondda, a sioe yn Theatr y Colisëwm a thocynnau ar gyfer Parti yn y Parc. Cafodd hyn i gyd ei gwblhau ar-lein a chadwon nhw eu tocynnau ar eu ffôn.

Tra bod y teulu ym Mharc Treftadaeth Cwm Rhondda, maen nhw'n dwlu ar y nodweddion realiti estynedig newydd ac yn cysylltu â'r di-wifr i ddangos eu cyffro ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys eu ffonau a'u lleoliad.

Mae'r teulu Griffiths, gyda'r un ap, yn mynd am dro ar hyd un o'r llwybrau cerdded ar lwybr Taith Taf gan ddefnyddio codau QR er mwyn darganfod manau newydd o ddiddordeb a hanes. Gan eu bod nhw wedi cofrestru ar gyfer y newyddion diweddaraf am weithgareddau yn RhCT, mae'r teulu yn cael gwybod am achlysuron newydd sy'n eu hannog nhw i ddychwelyd dros gyfnod y Nadolig.



Busnes Digidol

Cefnogi twf ein heconomi digidol fel dull o adnewyddu.

Mae busnesau'n creu cyfoeth ac mae'n hanfodol i gefnogi ein twf economaidd. Byddwn ni'n cefnogi ein cymuned busnes i ffynnu yn ein hoes ddigidol. Byddwn ni'n chwarae ein rhan o ran sicrhau bod busnesau yn cael cymorth, a hynny o'r busnes lleiaf mae angen cymorth arno i wneud rhagor ar-lein i gwmnïau technoleg uchel. Byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i ddarparu seilwaith a chysylltedd ardderchog.

Gyda'r sector digidol yn tyfu'n gyflymach nag unrhyw sector arall ar draws y rhan fwyaf o'r byd, mae'n hanfodol ein bod ni'n creu'r amgylchedd cywir i elwa ar y twf yma. Os ydyn ni'n llwyddiannus o ran darparu'r sgiliau, seilwaith, cysylltedd ac amgylchedd, byddwn ni'n denu diddordeb economaidd newydd yn RhCT. Rydyn ni'n credu mewn chwarae ein rhan i greu entrepreneuriaid newydd ac economi digidol yn ein sir, gan helpu i greu swyddi a busnesau newydd. Gan ystyried bod gan nifer o swyddi digidol gyflog uwch na chyfartaledd y DU, bydd cael hyn yn iawn yn helpu ein huchelgeisiau adnewyddu ehangach.

Yr hyn rydyn ni'n ei wneud:

- Cefnogi canol ein trefi i ddatblygu masnachu ar-lein, mae ap wedi cael ei ddatblygu yn Aberdâr a Phontypridd i hyrwyddo busnesau lleol.
- Gweithio gyda phartneriaid addysg uwch ac addysg bellach i ddatblygu perthnasau gyda busnesau.
- Gweithio gyda'n partneriaid rhanbarthol i sicrhau bod y sector TGCh/digidol yn cael ei gefnogi a'i ddatblygu.

Yr hyn byddwn ni'n ei wneud:

- Arolygu ein cymuned busnes o ran eu hanghenion a dyheadau digidol.
- Datblygu a hyrwyddo cynllun cymorth digidol ar gyfer ein busnesau – gan dynnu sylw at feysydd presennol o gymorth a datblygu gwasanaethau newydd posibl i fodloni galw lleol.
- Digitaleiddio ein swyddogaethau busnes-i-fusnes yn y Cyngor.
- Gwella ein swyddogaeth cynllunio o'r ochr weinyddol i gyflymu'r broses gynllunio.
- Parhau i gefnogi rhaglen Cyflymu Cymru a mynd i'r afael ag ardaloedd sy'n wan o ran signal ffonau symudol trwy gynlluniau ariannu presennol.

- Gweithio gydag ein hysgolion, sefydliadau addysg uwch, partneriaid diwydiant a'r Fargen Ddinesig i sicrhau bod y bwch sgiliau digidol yn cael ei gau a'n bod yn bodloni'r angen yn y dyfodol neu'n rhagori arno.
- Gweithio gyda'n darparwyr technoleg i archwilio i'r cyfleoedd o wireddu buddsoddiad economaidd a chefnogi gwella sgiliau digidol ein busnesau.
- Gweithio gyda sefydliadau cyfathrebu ffonau symudol i ymestyn signal rhwydweithiau ffôn cenhedlaeth-newydd.
- Archwilio i'r cyfleoedd o fanteisio ar gyllid y sector cyhoeddus/preifat i greu cyfleusterau gweithle arloesol sy'n galluogi busnesau newydd i ddatblygu a chydweithio.
- Creu partneriaeth Ddigidol RhCT sy'n debyg i'r hyn sydd gan siroedd eraill ledled y DU i hyrwyddo RhCT fel lle am ragoriaeth ddigidol.
- Bydd darparu data sy'n agored a thryloyw i'n cymunedau yn helpu i greu cyflogaeth, cefnogi menter ac entrepreneuriaeth yn ein sir.

Dod â'r weledigaeth yn fyw

Mae cwmni Hughes Automotive wedi bod yn gweithredu yn RhCT ers dros 20 o flynyddoedd gan ddarparu rhannau ar gyfer y diwydiant cerbydau modur. Wrth i dechnoleg newid, mae'r cwmni wedi datblygu'r capasiti a'r safonau i fodloni'r gofyniad. Yn fwy diweddar, mae'r cwsmeriaid yn gofyn am fodlau cyflymach ar gyfer eu gwaith adeiladu digidol. Yr hyn sydd ei angen ar gyfer hyn yw cyflymder ardderchog o ran y we, a gweithwyr sydd â'r sgiliau technegol i'w gyflawni, mae gan Hughes fynediad i'r ddau yn RhCT.

Mae Six Sigma Designs yn fusnes digidol, bach, newydd ei sefydlu sy'n darparu gwasanaethau i gynulleidfa byd-eang posibl. Yn wreiddiol o RCT, mae modd iddyn nhw fanteisio ar weithleoedd arloesol a chydweithredol yn y sir sydd wedi'u teilwra i fodloni man eu dyheadau busnes. Gyda mynediad i gyngor a seilwaith ardderchog, mae modd i'r cwmni ddarparu prentisiaethau i bobl ifainc sy'n awyddus i weithio yn y diwydiant. Mae tîm Six Sigma yn mynd i ysgolion lleol i annog dysgwyr i feddwl am yrfa ddigidol gan greu diddordeb a darparu ffrwd bosibl o weithwyr yn y dyfodol.

Mae Mair wedi bod yn rhedeg ei busnes cacennau a melysion ers y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae busnes yn mynd yn araf deg ond mae Mair yn effro i'r ffaith y gallai wneud llawer mwy pe bai hi'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn fwy. Mae hi'n gyfforddus iawn yn defnyddio'r gwasanaethau yma yn bersonol, ond fel busnes mae angen help arni. Mae Mair yn ymuno â busnesau lleol eraill mewn achlysur RhCT mewn partneriaeth â Google. Yn yr achlysur mae hi'n dysgu am bŵer cael ei phresenoldeb ar-lein yn iawn, gan ddefnyddio adnoddau am ddim i ddenu cwsmeriaid a sut gallai Mair reoli ei busnes ar-lein yn haws.



Gweithle Digidol

Trawsffurfio sut rydyn ni'n gweithio i wrthio gwasanaeth, cynhyrchiant a chydbwysedd gwaith/bywyd gwell.

Mae'r Cyngor wedi dechrau gweithredu amgylchedd gwaith hollol newydd – y gweithle digidol. Mae'r gweithle digidol yn trawsffurfio'r ffordd mae ein staff ac aelodau etholedig yn cyflawni eu dyletswyddau. I wireddu'r uchelgais yma, byddwn ni'n gweithredu dull all iwyio newid diwylliannol ac sy'n ymateb i angen.

Trwy ddefnydd arloesol ac integreiddio technoleg, byddwn ni'n datblygu prosesau busnes ein gweithle, dylunio trwy roi digidol yn gyntaf ac ystyried ail-ddylunio'r gwasanaeth cyflawn lle bo'n addas. Bydd adeiladau a swyddfeydd digidol sy'n fwy smart yn sail i hyn.

Byddwn ni'n trawsffurfio'r ffordd mae ein gwasanaethau yn cael eu cynnal trwy sicrhau bod gan ein gweithle ac aelodau etholedig fynediad i ddeilliannau technoleg arloesol i gefnogi cynhyrchiant a gwasanaeth gwell i'n cwsmeriaid. Byddwn ni'n ystyried cydbwysedd gwaith/bywyd ein staff a'n heffaith ar yr amgylchedd ar bob adeg.

Yr hyn rydyn ni'n ei wneud:

- Teilwra deilliannau technoleg sy'n canolbwyntio ar rôl y gweithiwr.
- Gweithredu gweithio hyblyg ar sail brawf ledled y gweithle gan gynnwys parthau desgiau gwag galw heibio ledled y sir.
- Datblygu polisïau i gefnogi ein gweithwyr sy'n gweithio'n hyblyg.
- Sicrhau bod ein hól troed llai o ran llety yn fwy addas yn ddigidol ac yn hyblyg.
- Lleihau'r angen am asedau papur trwy e-ddogfennau ac integreiddio i geisiadau busnes.
- Rhoi deilliannau cynadledda fideo a negeseua sydyn ar brawf.
- Darparu gwybodaeth am weithwyr, dysgu ar y we a datblygiad ac elfennau hunan-wasanaethu trwy ein mewnrwyd a phlatfform e-ddysgu.

Yr hyn byddwn ni'n ei wneud:

- Magu ethos arwain digidol trwy'r sefydliad a darparu rhwydwaith o hyrwyddwyr digidol ar gyfer pob un o grwpiau gwasanaeth y Cyngor fydd yn helpu i arwain, cynllunio, cydlynu a galluogi'r symudiad at ddarparu gwasanaethau digidol.
- Gweithredu cynllun tymor canolog ar gyfer gweithlu hyblyg. Bwriad y gwelliannau yw cynyddu cynhyrchiant a lleihau neu gael gwared ar y gofyniad i ddelio â phapur yn ein proses fusnes wrth weithredu ffyrdd arloesol o weithio.

- Darparu mynediad di-dor i wasanaethau a data i'n gweithwyr, beth bynnag fo'r lleoliad, i gynyddu cynhyrchiant a chefnogi cydweithio.
- Creu swyddfeydd digidol sy'n cefnogi dulliau gwaith y gweithiwr digidol; addasu'r dyluniad corfforol, darparu cymorth a hyfforddiant technoleg ar gyfer lleoliadau gwaith newydd.
- Ailfeddwl ac aiddylunio gwasanaethau trwy'r we i ddarparu gwybodaeth amser real sy'n llywio'r broses o wneud penderfyniadau ac sy'n gwella effeithiolrwydd.
- Atgyfnerthu systemau gwahanol i fod yn rhan o borth sengl gwasanaethau i weithwyr a siop un stop ar gyfer cyfathrebu, gwybodaeth ac adnoddau e-ddysgu. Byddwn ni'n cynnwys cyfleusterau hunan-wasanaethu digidol.
- Gweithredu technoleg i alluogi cydweithio a chyfathrebu gwell ar gyfer ein gweithwyr.
- Darparu dull strwythuredig, diogel a safonedig ar gyfer rheoli cofnodion yn y Cyngor sy'n lleihau'r angen i gadw papur, ac yn manteisio ar ddigitaleiddio asedau papur presennol fydd yn galluogi mynediad ymhellach i wybodaeth yn y maes.
- Archwilio i gyfleoedd Dod â'ch dyfais eich hun (BYOD) lle y caiff ein gweithwyr gysylltu â systemau a data'r Cyngor a chael mynediad iddyn nhw mewn modd diogel gan ddefnyddio eu hoffer eu hunain.

Mae'r we yn ein galluogi ni i osod dyfeisiau digidol yng ngwrthrychau bob dydd i gasglu data i leihau ymyraethau gan bobl trwy awtomeiddio gwasanaethau.

Dod â'r weledigaeth yn fyw

Gweithiwr cymdeithasol yw Gaynor. Mae hi'n dechrau ei diwrnod trwy ddarllen manylion ei hapwyntiadau ar ei dyfais symudol. Dyma'r tro cyntaf i Gaynor ymweld â'i chleient, David, ond mae ei holl fanylion gan gynnwys cyfeiriad a hanes gwybodaeth hanfodol ar gael yn ddiogel ar ei dyfais symudol. Yn lle'r daith arferol i'r swyddfa, mae modd i Gaynor arbed amser a milltiroedd trwy fynd yn syth o'i chartref i weld David gan ddefnyddio'r cyfarwyddiadau sydd wedi'u cysylltu ag ap llywio ar ei ffôn clyfar.

Mae Gaynor yn cwblhau asesiad o'i chleient. Mae hi wedi cael hyfforddiant i ddefnyddio'r dyfais ac mae ap wedi cael ei ddatblygu er mwyn i Gaynor gofnodi'r holl ddata sydd eu hangen yn ddiogel o'i chyfarfod â David. Does dim angen iddi fynd yn ôl i'r swyddfa a theipio ei nodiadau yn y system. Pan fo angen i Gaynor fynd i swyddfa, caiff hi gadw un o'r cyfleusterau desgiau gwag lleol sydd ar gael ledled y sir fel ei bod hi'n amlhau amser gwerthfawr.

Wrth fod yn nhŷ David, mae Gaynor yn cael gwybod trwy ddsbarthwr meddyginiaeth ei fod wedi colli cymryd ei feddyginiaeth y bore hwnnw. Mae hi'n ei atgoffa i wneud hynny ac yn ychwanegu hyn at ei nodiadau. Mae'r nodiadau yn cael eu llwytho ar system ddiogel o'i llechen, gan wneud y nodiadau ar gael i'w chydweithwyr yn y swyddfa. Mae'r nodiadau yma yn cael eu rhannu â chydweithwyr y GIG sydd hefyd yn gweithio gyda David, gan sicrhau cyfathrebu a qofal qwell ar ei qyfer.



Seilwaith o'r Radd Flaenaf

Mae angen seilwaith digidol cynaliadwy, o'r radd flaenaf. Mae angen iddo fod yn hyblyg ac yn addasadwy er mwyn ymateb i anghenion newidiol ein trigolion, busnesau, dysgwyr, gweithwyr ac ymwelwyr yn well. Mae adeiladu seilwaith digidol sy'n addas yn golygu gwneud technoleg yn alluogydd allweddol ac yn rhan allweddol o'n proses o'i wireddu.

Mae modd i dechnoleg newid y ffordd rydyn ni'n gweithio'n llwyr. Mae'n ein galluogi ni i fod yn symudol yn hytrach na bod mewn lleoliadau neu swyddfeydd penodol, gan alluogi mwy o amser yn gwasanaethu ein cymuned. Mae cyfradd newid technolegol yn gyflym ac mae twf o ran defnyddio technoleg fel cyfrifiadura cwmwl, dyfeisiau symudol a band llydan cyflym iawn yn cyflwyno cyfleoedd mawr byddwn ni'n manteisio arnyn nhw er ein budd ni.

Yr hyn rydyn ni'n ei wneud:

- Gwella seilwaith TGCh craidd sylfaenol y Cyngor i ddarparu plattform cadarn a chydnerth i alluogi gweithrediadau busnes a'n gwelliannau digidol trwy:
- Cynnal adolygiad / astudiaeth sylfaenol i lywio strategaeth ar gyfer ffurfio sail i seilwaith y Cyngor er mwyn sicrhau gwydnwch, parhad y gwasanaeth a galluogi prosiectau digitaleiddio yn y dyfodol.
- Ail-lwytho a diweddarau cysylltiadau band eang a seilwaith rhwydwaith mewn safleoedd strategol allweddol y Cyngor, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden allweddol a theatrau.
- Gosod gwasanaeth diwifr sydd ar gael i'r cyhoedd yn adeiladau'r Cyngor ledled yr awdurdod gan gynnwys lleoliadau sydd ar agor i'r cyhoedd i gefnogi cynhwysiant digidol.
- Moderneiddio a gwella gwydnwch a nodweddion ein gwasanaeth e-bost.
- Sicrhau bod meddalwedd seilwaith allweddol yn barod i fabwysiadu gwasanaethau cwmwl.
- Moderneiddio seilwaith teleffoni'r Cyngor trwy weithredu plattform cyfathrebu unedig. Bydd hyn hefyd yn cefnogi ein cwsmeriaid a gweithio hyblyg.
- Archwilio i gyfleoedd cydweithio gyda'n sefydliadau sector cyhoeddus i gydgasglu seilwaith a manteisio arno ledled y rhanbarth.
- Cefnogi a chyflawni prosiectau gwella sy'n seiliedig ar wasanaethau a newid cynigion lle mai technoleg yw'r galluogydd er enghraifft System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, Ysgolion yr 21ain Ganrif, a Gwasanaethau Rhanbarthol fel Gwasanaeth y Crwner, Hwb Diogelu Amlasiantaeth a Charfan Troseddau Ieuentid.

Yr hyn byddwn ni'n ei wneud:

- Trawsffurfio'n hadeiladau cyhoeddus a manau cyhoeddus i gyflawni ein gweledigaeth ddigidol, weithiau mewn cydweithrediad â'n partneriaid. Sicrhau ffyrdd gwell o weithio yn y sefydliad a chynhwysiant trwy feysydd mynediad cyhoeddus.
- Parhau i wella seilwaith y Cyngor i sicrhau bod ein systemau yn ddibynadwy ac yn berthnasol.
- Manteisio ar dechnoleg Band Eang i wella cysylltedd ag adeiladau'r Cyngor.
- Symud o safle presennol y Cyngor sef Seilwaith TGCh ar y safle i fodel sy'n dechrau manteisio ar gyfrifiadura cwmwl gan ddarparu'r platfform ar gyfer newidiadau i'r gwasanaeth a'r gweithle.
- Rhesymoli a lleihau systemau busnes TGCh yn y Cyngor gan elwa ar gyfleoedd i symud i blatfformau cenedlaethol neu ranbarthol.
- Sicrhau bod ein systemau yn cefnogi safoni, integreiddio, rhannu a chadw data.
- Canolbwyntio llai ar fathau penodol o ddyfeisiau a chanolbwyntio mwy ar rwyddineb defnyddio, yn ogystal â sut y caiff unrhyw ddyfais ddefnyddio rhaglenni'n ddiogel.
- Cydgasglu a rhannu seilwaith sector cyhoeddus rhanbarthol i wella cyflawni gwasanaethau wedi'u rhannu.
- Darparu mynediad i wasanaeth diwifr yng nghanol ein trefi, ein trafndiaeth gyhoeddus a pharhau i weithio gyda phartneriaid, gan gynnwys y sector preifat, i sicrhau bod band eang cyflym iawn a rhwydweithiau ffonau symudol cyhoeddus (e.e. Band Eang Cyflym iawn Cymru a 4/5G) ar gael ac yn well er budd ein preswylwyr, busnesau, dysgwyr, gweithwyr ac ymwelwyr.



Rheoli Data a Gwybodaeth

Defnyddio Data a Gwybodaeth cyson i wella'r ffordd rydyn ni'n rheoli ein busnes a llywio darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol.

Un o'r cyfleoedd a heriau mwyaf rydyn ni'n ei wynebu heddiw yw'r arwyddocâd cynyddol o ddata a gwybodaeth. Mae data yn sail i'n gwasanaethau, busnesau a'n heconomi. Mae'n darparu mewnwelediad i anghenion ein cwsmeriaid ac yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen i ni ganolbwyntio ar wasanaethau yn fwy effeithiol.

Byddwn ni'n trawsffurfio'r ffordd rydyn ni'n darparu gwasanaethau i'n cwsmeriaid trwy fanteisio ar wybodaeth a dadansoddeg fusnes o Ddata Mawr i lywio a chanolbwyntio ar ddarpariaeth yn y dyfodol. Bydd angen cael gwared ar setiau o ddata anghywir a'u gwella i greu systemau gwybodaeth cyson a safonedig sydd wedi'u cysylltu ledled y Cyngor, trwy greu Prif Setiau Data. Trwy dryloywder yn ein sefydliad, byddwn ni'n darparu 'Data Agored' i'n cwsmeriaid all helpu i adfywio ein cymunedau, cefnogi busnesau lleol a gwella cyfoeth a ffyniant yn ein sir.

Er bod y cyfleoedd o ran 'Data Agored' a 'Data Mawr' yn enfawr, mae'n bwysig ein bod ni'n parhau i ddiogelu gwybodaeth mewn ffordd addas trwy sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â safonau diogelwch. Byddwn ni'n sicrhau bod pob cam rydyn ni'n ei gymryd yn gyfreithiol ac yn foesol.

Yr hyn rydyn ni'n ei wneud:

- Darparu ffynhonnell derfynol, Prif Set Data neu ffynhonnell unigol o ddata safonedig ar gyfer Eiddo a Strydoedd (LLPG a LSG) sy'n cefnogi gwasanaethau allweddol a phartneriaid allanol.
- Darparu safonau a gweithdrefnau diogelu cadarn i amddiffyn data ein cwsmeriaid a'n sefydliad rhag bygythiadau seiber, datgelu neu gollu data, neu dorri rheolau.
- Sicrhau bod gyda ni drefn llywodraethu, polisïau a gweithdrefnau Rheoli Gwybodaeth a Data clir yn eu lle i reoli'r data rydyn ni'n ei gadw ac mae modd i ni ei rannu.
- Datblygu Trefniadau Rhannu Gwybodaeth sy'n cefnogi'r Cyngor i weithio ar y cyd â phartneriaid, gan rannu data i ddarparu gwasanaethau cydgysylltiedig.
- Darparu gwybodaeth a data i swyddogion yn y maes i gefnogi gweithio hyblyg.

Yr hyn byddwn ni'n ei wneud:

- Darparu 'Prif Set Rheoli Data' (MDMS) clir ar gyfer y Cyngor fydd yn safoni data yn well trwy gofnod unigol cywir ar gyfer y person, lle ac ased.

- Cysylltu ein systemau busnes allweddol â MDMS y Cyngor i wella ansawdd y data rydyn ni'n ei gadw fydd yn galluogi adrannau gwasanaeth i rannu gwybodaeth yn well.
- Cydgysylltu data trwy ddefnyddio adnoddau gwybodaeth fusnes fydd yn dechrau creu ac elwa ar 'Ddata Mawr' y Cyngor i lywio'r broses o wneud penderfyniadau yn well a'i gwneud hi'n hawdd i'r Cyngor ddadansoddi cyflawniad.
- Datblygu cyfleuster 'Archwilio RhCT' fydd yn galluogi dull chwilio am ddata digidol yn ddiogel, ei adalw a mynegeoio gweithwyr i ddod o hyd i'r wybodaeth maen nhw ei hangen i wneud penderfyniadau a chyflawni gwasanaethau yn fwy effeithiol.
- Sicrhau bod gan y Cyngor bolisiau a gweithdrefnau rheoli data clir ar gyfer creu, cadw, a chael gwared ar wybodaeth a sut mae'r rhain yn cael eu rheoli a'u cadw'n effeithiol gan wasanaethau.
- Mabwysiadu dull safonedig ar draws ein systemau busnes allweddol fel eu bod nhw'n unol â thechnoleg ddigidol fodern.
- Cydgysylltu data a systemau ar draws gwasanaethau ac asiantaethau partner (e.e. lechyd, Heddlu, Awdurdodau Lleol) fel bod modd i ni wneud pethau unwaith a nodi tueddiadau allweddol all helpu i ledu ymyrraeth.
- Darparu gwybodaeth dryloyw i'r cyhoedd trwy 'Ddata Agored', gan roi gwybodaeth allweddol i randdeiliaid allanol. Mae modd i'r cwsmer, partneriaid neu fusnes ddefnyddio'r wybodaeth allweddol i gefnogi anghenion unigol a chaniatáu i'r economi dyfu.
- Ehangu ein 'Data Agored' ein hun a gweithio gyda phartneriaid allanol i ddarparu golwg gyfan o ddata yn ein rhanbarthau neu ar eu traws o sectorau eraill (cyfrifiad, golau glas (blue light)). Gallai hyn lywio mentrau gwella cenedlaethol ehangach e.e. y Fargen Ddinesig.
- Sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) 'newydd' yr UE ym mis Mai 2018 ac unrhyw ddeddfwriaeth gysylltiedig arall.



Dylunio Gwasanaeth Digidol

Sicrhau bod ein dyheadau digidol yn cael eu hymgorffori ar draws y Cyngor.

Mae angen i'n dyhead o ddefnyddio technoleg ddigidol i ganolbwyntio ar anghenion y defnyddiwr gyflawni'r deilliannau rydyn ni'n dyheu amdany'n nhw. Mae angen dulliau newydd o gyflawni sy'n rheoli buddion data cysylltiedig sy'n creu cyfleoedd newydd i anghenion ein cwsmeriaid ac sy'n annog twf, effeithiolrwydd ac arloesedd. Rydyn ni'n gwneud hyn o ran galw cynyddol am wasanaethau ac adnoddau cyfyngedig.

I sicrhau llwyddiant, bydd angen i ni weithio gyda'n cymunedau a'n partneriaid sector cyhoeddus i ailgynllunio ein gwasanaethau'n llwyr lle bo'n addas, a gweithio gyda'n gilydd yn well i gefnogi ein cwsmeriaid.

Yr hyn rydyn ni'n ei wneud:

- Sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu cynllunio i wella bodlonrwydd, gwella datrysiadau, cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau digidol a lleihau costau.
- Rydyn ni'n cefnogi arweinwyr gwasanaethau o ran sicrhau bod ein gwasanaethau yn ddigidol lle bo modd a'u bod ar gael o unrhyw ddyfais.


Yr hyn byddwn ni'n ei wneud:

Bydd ein gwasanaethau yn cael eu llywio gan anghenion defnyddwyr ein gwasanaeth trwy:

- Ymgynghori â defnyddwyr y gwasanaeth i lywio dyluniad gwasanaeth yn y dyfodol.
- Deall defnyddwyr y gwasanaeth, yr hyn maen nhw'n ceisio ei wneud a sut byddai'n well ganddyn nhw ei wneud.
- Datblygu profiad ardderchog i ddefnyddwyr, gan wneud pethau'n haws trwy ddylunio ein gwasanaethau yn well a lleihau prosesu.
- Sicrhau i gynnwys pobl sydd â'r lefel isaf o fynediad, sgiliau a llythrennedd digidol.
- Nodi problemau mae defnyddwyr y gwasanaeth yn eu cael ac ailgynllunio'r gwasanaeth yn unol â hynny.
- Defnyddio data i ddadansoddi llwyddiant ein gwasanaethau digidol i lywio penderfyniadau a blaenoriaethau yn y dyfodol.
- Sicrhau bod ein hymdrechion yn canolbwyntio ar wasanaethau sydd o werth i bobl sy'n eu hangen, a hynny'n seiliedig ar fewnwelediad ac adborth.
- Adnabod defnyddwyr mewn modd diogel i wella mynediad i wasanaethau wrth reoli materion diogelwch a phreifatrwydd.
- Gwella adborth o'r maes i ddarparu data byw sy'n berthnasol i'n cwsmeriaid.

10 Deilliant Strategaeth

Erbyn 2020, byddwn ni'n cyflawni'r 10 deilliant canlynol:



DIGIDOL O RAN DYLUNIAD

1. Mae ein Cyngor yn sicrhau bod technoleg ddigidol yn hanfodol ar draws y sefydliad a diwylliant, gan yrru gwasanaethau ymatebol ac effeithiol o ran cost. Mae'r gwasanaethau wedi'u dylunio mewn ffyrdd sy'n hawdd i ddefnyddwyr ac sy'n ymateb i dueddiadau cwsmeriaid esblygol. Mae dulliau newydd o gyflawni yn gwella bodlonrwydd cwsmeriaid a datrysiadau gyda gwasanaethau'r Cyngor, ac mae adborth yn cael ei ddefnyddio'n weithredol i wneud rhagor o welliannau.
2. Mae ein gweithle yn hyblyg ac mae gan staff y sgiliau i fanteisio ar gyfleoedd digidol yn rhan o'u rolau. Mae ein technoleg ac arferion gwaith yn esblygu i sicrhau cyflawni effeithiol, y gwerth gorau am arian a chydbwysedd gwaith/bywyd cadarnhaol ar gyfer ein staff.
3. Mae gwerth am arian ac arbedion effeithiolrwydd ariannol yn cael eu cyflawni trwy brosesau digidol, yn ogystal â thechnoleg gyfunol sy'n sail iddyn nhw.

MEWNWELEDIAD DIGIDOL

4. Mae data a mewnwelediadau yn cael eu defnyddio'n fwy i ganolbwyntio ein hymdrechion ar y meysydd iawn gydag adnoddau addas, a hynny er mwyn adeiladu sail i ddyluniad gwasanaeth wedi'i arwain gan alw.
5. Mae data wedi'i gadw gan y Cyngor yn adnodd sydd ar gael i'n cymuned i wella gwasanaethau, cyfleoedd busnes a chyfathrebu ar draws sefydliadau.
6. Mae technoleg ddigidol yn cael ei defnyddio i hwyluso trefn lywodraethol agored a thryloyw o'r Cyngor. Mae mynediad cyhoeddus i wybodaeth y Cyngor yn hyrwyddo democratiaeth fywiol, gonestrwydd a phenderfyniadau tryloyw gwell.

DYHEAD/YMELWAD DIGIDOL

7. Dydy ein preswylwyr ddim dan anfantis annheg o ganlyniad i'r gagendor digidol ac mae cymorth yn cael ei ddarparu lle bo'n bosibl.
8. Mae ein Cyngor yn parhau i weithio mewn cydweithrediad agos â'n partneriaid i wella a rhannu gwasanaethau digidol. Mae gweithleoedd wedi'u rhannu yn eu lle ac maen nhw'n cael eu datblygu ledled y sir.
9. Mae ein myfyrwyr yn cael y sgiliau digidol sydd eu hangen ar gyfer byd digidol esblygol ac mae gyda nhw seilwaith o'r radd flaenaf i gefnogi eu dyheadau.
10. Mae ein busnesau yn cael y cymorth i fanteisio ar ein hoes ddigidol. Mae plattform seilwaith yn ei le er mwyn i fusnesau ffynnu, sefydlu a datblygu.

Sut byddwn ni'n cyrraedd?

Mae ein strategaeth yn uchelgeisiol a bydd angen gwneud gwaith caled, penderfyniadau anodd a ffyrdd newydd o feddwl. Mae'n hanfodol bod ein holl weithwyr a phartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i wireddau'r addewon a gafodd eu gwneud. Rydyn ni'n credu y bydd ein cymunedau yn elwa ar ein camau gweithredu ond byddwn ni'n dysgu gan eraill i gyflawni llwyddiant ar y cyd ar gyfer ein cymunedau. I sicrhau'r llwyddiant yma, mae angen i ni ddatblygu arweinwyr digidol neu hyrwyddwyr ar draws y Cyngor a chreu grŵp o bobl fydd yn gyrru'r strategaeth a'i chyflawni.

Arweinyddiaeth

Bydd cyflawni'r strategaeth yn llwyddiannus yn dibynnu ar drefn lywodraethu addas o ran cyflawni ac arweinyddiaeth gadarn ar draws y Cyngor. Er bod pob un o'n gweithwyr yn gyfrifol am groesawu ein newid digidol uchelgeisiol, mae angen i benderfyniadau ar flaenoriaethau a gwariant call gael eu goruchwyllo'n addas ac yn brydlon i sicrhau cyflawni effeithiol. I sicrhau bod hyn yn digwydd, byddwn ni'n datblygu grŵp arwain digidol newydd.

Grŵp Arwain Digidol

Bydd y grŵp yn canolbwyntio ar yrru'r strategaeth yma ymlaen. Bydd y grŵp yn cwrdd yn rheolaidd i drafod cynnydd y strategaeth, sicrhau bod cyflawniad yn cael ei wneud a bod ein dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu bodloni. Cyfrifoldeb y grŵp yma yw arwain, hyrwyddo, herio a gwthio trawsffurfiad digidol yn y Cyngor a'n partneriaid allanol. Y grŵp yma fydd y grym y tu ôl i'r strategaeth yma a chyfrifoldeb y grŵp yw parhau i wrthio ffiniau, ymateb i angen ac ymglyfarwyddo ag arferion gorau a newid tueddiadau digidol.

Hyrwyddwyr Digidol

Byddwn ni'n datblygu rhwydwaith a Hyrwyddwyr Digidol ar draws meysydd gwasanaeth i helpu i weithredu a chyflawni'r strategaeth.

Polisiâu sy'n addas i'r Byd Digidol

Bydd angen diweddarau ein polisiâu presennol i alluogi'r newidiadau sydd eu hangen i weithredu ein gweledigaeth ddigidol. Mae'n hanfodol ein bod ni'n symud holl elfennau'r Cyngor ar yr un pryd; bydd angen cael gwared ar rwystrau i sicrhau ein bod ni'n cyflawni'n gweledigaeth.

Bydd ein Strategaeth yn cyflawni 5 amcan allweddol.

1. Datblygu gwasanaethau ar gyfer ein preswylwyr sy'n gyfleus o ran eu bywydau.
2. Cefnogi ein cenhedlaeth i ffynnu mewn oes ddigidol trwy ddatblygu sgiliau.
3. Gwella ein profiad digidol ar gyfer ein hymwelwyr.
4. Adeiladu ein heconomi digidol i gefnogi ein dyheadau adfywio.
5. Datblygu arferion gwaith modern i wella cynhyrchiant a chydbwysedd gwaith/bywyd ar gyfer ein gweithwyr.

Preswylwyr Digidol	
Dangosydd Allweddol	Targed / Deilliannau
Bydd y rhan fwyaf o gyfathrebu â chwsmeriaid yn cael ei gynnal ar-lein	Dros 50% o ddulliau cyfathrebu yn rhai hunan-wasanaethu
Bydd cwsmeriaid yn fodlon â'r cyfathrebu	Bydd y rhan fwyaf o gwsmeriaid yn fodlon
Bydd ymholiadau cwsmeriaid yn cael eu datrys	Bydd y rhan fwyaf o ddulliau cyfathrebu yn cael eu datrys
Medrau Digidol	
Dangosydd Allweddol	Targed
Sefydlu llwybrau i yrfaedd digidol yn ein system addysg	Partneriaeth addysg wedi'i datblygu gyda phob rhanddeiliad i sicrhau llwybrau cynnydd digidol
Sicrhau bod seilwaith digidol ysgolion yn cefnogi cyflawni sgiliau arloesol	Caiff pob ysgol gynnig polisi Dod â'ch Dyfais eich Hun erbyn 2018
Datblygu Ffatrioedd Digidol yn y sir	1 ffatri erbyn 2018 / 2 erbyn 2019 / 5 erbyn 2020
Mae gwasanaeth di-wifr ar gael ym mhob lleoliad addas gan gynnwys trafinaeth a chanol trefi	Bydd gan bob ardal wedi'i nodi wasanaeth di-wifr erbyn 2020
Mae ffigur Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru ar gyfer RhCT wedi'i leihau	85% erbyn 2020 / 71% ar hyn o bryd
Mae sesiynau Dydd Gwener Digidol yn parhau i gael eu cynnal ledled RhCT	Mae 10 lleoliad yn parhau i weithredu hyd at 2020
Sicrhau bod Clybiau Cod yn cael eu cynnal ledled RhCT erbyn 2018. Mewn ysgolion neu leoliadau yn y gymuned	5 Clwb Cod erbyn diwedd 2017 / 15 erbyn diwedd 2018
Datblygu manau cydweithio 'makerspace' yn ein cymunedau	1 peilot erbyn diwedd 2017
Ymwelwyr Digidol	
Dangosydd Allweddol	Targed
Mae gwasanaeth di-wifr ar gael ym mhob lleoliad i ymwelwyr	Bydd gan bob lleoliad fynediad i wasanaeth di-wifr erbyn diwedd 2017
Mynediad i opsiynau ap a chyfuno gweithgarwch ac achlysuron atyniadau. Sicrhau bod modd i ymwelwyr gael mynediad i wybodaeth am ein hatyniadau yn hawdd	Bydd yr ap neu Groeso RhCT ar gael ac mae modd i unrhyw ymwelydd neu breswlydd ddod o hyd iddyn nhw'n hawdd

Rhoi realiti estynedig ar brawf yn ein hatyniadau i ymwelwyr.	1 peilot erbyn diwedd 2017. Os bydd yn llwyddiannus, gweithio gydag ysgolion i ddatblygu prosiectau newydd yn ein lleoliadau.
---	---

Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Busnes Digidol	
Dangosydd Allweddol	Targed
Gwybod am anghenion digidol ein busnesau.	Arolwg busnes yn cael ei gwblhau erbyn diwedd 2017 i asesu angen.
Gweithio gyda llywodraeth ganolog a gweithredwyr ffonau symudol i ysgogi signal technoleg galluogi fel 4G a lleihau nifer yr ardaloedd sy'n wan o ran signal ffonau symudol.	O leiaf 95% o'r boblogaeth.
Gweithio gyda llywodraeth ganolog a gweithredwyr band eang sefydlog i ysgogi signal technoleg galluogi fel Band Eang Ffibr a lleihau nifer yr ardaloedd sy'n wan o ran signal ffonau symudol.	O leiaf 96% o'r boblogaeth.
Gweithle Digidol	
Dangosydd Allweddol	Targed
Sefydlu rhaglen o Brosiectau Gweithio Hyblyg ar draws y Cyngor	Sicrhau bod rhaglen effeithiol i alluogi lleihau swyddfeydd, gwella cynhyrchiant a lleihau costau.
Lleihau ôl troed y swyddfa o ganlyniad i weithio hyblyg	Galluogi a chefnogi blaenoriaeth gorfforaethol o ran gostyngiad o 20% i swyddfeydd erbyn 2020
Gweithredu adnoddau fideos, teleffoni ac anfon negeseuon cynhyrchiant a chydweithio ar gyfer gweithio hyblyg	Caiff gweithwyr hyblyg gyflawni eu dyletswyddau o bell a pharhau i fod yn gysylltiedig â'r swyddfa.
Adolygu rhaglenni busnes i nodi eu parodrwydd digidol.	Sicrhau bod yna bortffolio rhaglenni addas i'r pwrpas sy'n galluogi integreiddiad, symudedd, hunan-wasanaethu ac adrodd / dadansoddeg amser real.
Porth gwasanaethau i weithwyr cyfunol unigol	Cyfathrebu gwell â gweithwyr Cyfuno e-ddysgu Gallu i'n gweithwyr hunan-wasanaethu Gostyngiad o ran cymhlethdod seilwaith

Sefydlu Grŵp Arwain Digidol

Sicrhau bod yna strwythur effeithiol i alluogi penderfyniadau amserol ac ymatebol ar gyfer blaenoriaeth a chyflawni digidol.